

Llawdriniaeth trawsblannu dwylo

*Mae arweiniad
Techlechydd NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio llawdriniaeth trawsblannu dwylo yn y GIG. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n darparu gwerth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Yn ogystal, mae risgiau'n gysylltiedig â'r cyffuriau gwrthimiwnedd hirdymor sydd eu hangen ar ôl y driniaeth (i atal system imiwnedd y claf rhag ymosod ar law a drawsblannwyd). Os yw meddyg am drawsblannu llaw, dylai sicrhau ei fod yn cymryd camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd ynglŷn â pha mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio, ynghyd â'r risgiau posibl. Dylai'r meddyg egluro y bydd angen cymryd cyffuriau gwrthimiwnedd yn yr hirdymor a sgil-ffeithiau posibl y rhain, a'r ffaith y gall fod oedi cyn y gellir defnyddio'r llaw newydd ac na ellir gwneud defnydd llawn ohoni o bosibl. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i gael y driniaeth. Dylid rhoi'r daflen hon a gwybodaeth ysgrifenedig arall i'r claf fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd roi trefniadau arbennig ar waith ar gyfer monitro'r hyn sy'n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth.

Dim ond mewn unedau sydd â thimau llawfeddygol â phrofiad ac arbenigedd ym maes ail-fewnblannu breichiau a choesau (ailosod dwylo iach a ddatgysylltwyd o'r corff mewn damwain) a llawdriniaeth trawsblannu breichiau a choesau y dylid cynnal y driniaeth. Dylid asesu cleifion yn ofalus i ganfod p'un ai llawdriniaeth drawsblannu yw'r opsiwn gorau iddynt hwy. Dylid hefyd drafod opsiynau rheoli eraill, yn ogystal â gofal adsefydlu.

Mae NICE yn gofyn i feddygon anfon gwybodaeth am bawb a gaiff y driniaeth a'r hyn sy'n digwydd iddynt wedyn i'r Gofrestrfa Ryngwladol ar Drawsblannu Dwylo a Meinwe Gyfansawdd (www.handregistry.com) a Transplant UK, er mwyn gallu archwilio diogelwch y driniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio dros gyfnod o amser.

Yn olaf, mae NICE wedi annog gwaith ymchwil pellach ar drawsblannu dwylo ac efallai y bydd yn adolygu'r driniaeth os daw rhagor o dystiolaeth ar gael.

Efallai nad dyma'r unig driniaeth bosibl. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha driniaethau eraill sydd ar gael.

Llawdriniaeth trawsblannu dwylo

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'allimpio dwylo'. Mae'r gair 'allimpio' yn golygu bod y llaw wedi'i chymryd gan roddwr.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Efallai y bydd yn rhaid torri llaw sydd wedi'i niweidio'n ddifrifol drwy anaf neu afiechyd i ffwrdd ac y bydd yn rhaid i'r unigolyn wisgo llaw artiffisial dros y stwmp (a elwir yn brosthesis). Nodau'r driniaeth hon yw darparu llaw sy'n fwy naturiol na prosthesis mecanyddol safonol, a gwella ei swyddogaeth. Cyn y driniaeth, dylid asesu cleifion yn ofalus i sicrhau eu bod yn deall ac yn derbyn y bydd angen gofal adsefydlu hirdymor a meddyginiaeth gwrthimiwnedd am weddill eu hoes ar ôl y driniaeth.

Caiff y driniaeth ei chyflawni fel arfer gyda'r claf o dan anesthetig cyffredinol. Mae'n cynnwys trawsblannu llaw gan roddwr a fu farw'n ddiweddar i'r stwmp lle torrwyd y llaw wreiddiol i ffwrdd. Caiff llaw y rhoddwr (a ddewisir i gydweddu â'r claf mor agos â phosibl o ran rhyw, maint ac edrychiad) ei dynnu drwy lawdriniaeth o dan gymal y benelin

a'i baratoi i'w drawsblannu. Cysylltir esgyrn braich y rhoddwr â rhai'r claf, ac yna'r pibellau gwaed, y nerfau, y tendonau a'r croen.

Ar ôl y driniaeth gellir gosod y fraich a'r llaw mewn plaster am sawl wythnos. Bydd angen gofal adsefydlu dwys ar y claf, gan gynnwys ffisiotherapi, therapi galwedigaethol ac o bosibl electroysgogi er mwyn adfer cymaint o swyddogaeth i'r llaw a drawsblannwyd â phosibl. Bydd angen cyffuriau gwrthimiwnedd hirdymor i leihau'r posibilrwydd y bydd corff y claf yn gwrthod llaw y rhoddwr.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw eich meddyg wedi cynnig y driniaeth hon i chi, dylai ddweud wrthyfch fod NICE wedi penderfynu bod y manteision a'r risgiau yn ansicr. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cyflawni'r driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dylent egluro pwysigrwydd meddyginiaeth gwrthimiwnedd hirdymor a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn, ac egluro y gall fod oedi cyn y gellir defnyddio'r llaw ac na ellir gwneud defnydd llawn ohoni o bosibl. Dim ond ar ôl i'r drafodaeth hon gael ei chynnal y dylid gofyn i chi p'un a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis
cael y driniaeth
hon, cael triniaeth
wahanol, neu
beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar dair astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Dilynodd astudiaeth o 30 o gleifion (38 o ddwylo) gynnydd y cleifion am hyd at naw mlynedd a gwelwyd bod 90% o gleifion yn gallu teimlo pwysau a 72% yn gallu profi teimladau gwahanol ar ôl y driniaeth. Hefyd, roedd 70% o gleifion yn teimlo bod ganddynt ansawdd bywyd gwell a dychwelodd y rhan fwyaf ohonynt i'r gwaith. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, profodd 85% o gleifion achosion aciwt o wrthod (lle mae'r corff yn dechrau gwrthod y trawsblaniad) ond gwrth-drowyd pob achos pan roddwyd gwybod amdano a'i drin yn briodol. Roedd pob trawsblaniad yn dal yn gweithio ar ôl dwy flynedd, ond methodd 10 yn ddiweddarach am na chymerodd y cleifion y cyffuriau gwrthimiwnedd fel y'u rhagnodwyd.

Yn achos dwy astudiaeth yn cynnwys chwe chlaf, bu'n rhaid ail-dynnu dwy law oherwydd problemau yn ymwneud â llif y gwaed.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai'r ffactorau llwyddiant yw gallu defnyddio'r llaw, goroesi heb i'r corff wrthod y trawsblaniad a boddhad cleifion.

Risgiau a phroblemau posibl

Yn yr astudiaeth o 30 o gleifion, nodwyd dau achos o glotiau gwaed ac un achos o broblemau'n ymwneud â llif y gwaed yr oedd angen triniaeth bellach ar eu cyfer. Dangosodd yr astudiaeth hefyd broblemau'n ymwneud â'r therapi gwrthimiwnedd: profodd 65% o gleifion heintiau, y cafodd y rhan fwyaf ohonynt eu gwella â thriniaeth, a chafodd 52% gymhlethdodau metabolaidd, fel lefelau uchel o siwgr yn y gwaed.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod cymhlethdodau a restrwyd yn yr astudiaethau'n cynnwys y corff yn gwrthod y llaw, problemau wrth ddefnyddio'r llaw a diabetes sy'n gysylltiedig â'r therapi gwrthimiwnedd. Mewn gwirionedd, mae problemau eraill yn cynnwys newidiadau canseraidd a thiwmorau.

Rhagor o wybodaeth am drawsblannu dwylo

Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion am holl ganllawiau NICE ar drawsblannu, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud ag 'allimpio dwylo'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/HTG254

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8370-4

N2534 1P March 11

© National Institute for Health and Clinical Excellence. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes.

No reproduction by or for commercial organisations, or

for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.